



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Cyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru: 29 Gorffennaf 2022

Agenda a chofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 29
Gorffennaf 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Mawrth 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 23 Mawrth 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Agenda

Yn bresennol

Croeso

Y Rhaglen Lywodraethu – diweddariad

3. Llwodraeth Cymru 2025 – diweddariad

Amrywiaeth a chynhwysiant

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

COVID-19 – diwedd y cyfnod pontio

Unrhyw fater arall

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Agenda

1. Croeso / Materion cyfredol

Llafar

Gweler y cofnodion.

2. Y Rhaglen Lywodraethu

Papur eitem 2

Nid yw'r papur wedi'i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am lunio neu ddatblygu polisi'r llywodraeth.

3. Diweddariad ar Llywodraeth Cymru 2025 – Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau

Papur eitem 3

Nid yw'r papur wedi'i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am lunio neu ddatblygu polisi'r llywodraeth.

4. Amrywiaeth a Chynhwysiant

Papur eitem 4

Wedi'i gyhoeddi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

5. Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru

Papur eitem 5

Nid yw'r papur wedi'i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â rheoli perfformiad mewnol.

6. Covid 19 - diwedd y cyfnod pontio

Papur eitem 6

Nid yw'r papur wedi'i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am lunio neu ddatblygu polisi'r llywodraeth.

7. Unrhyw fusnes arall

Llafar

Gweler y cofnodion.

Yn bresennol

- Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
- Meena Upadhyaya
- Gareth Lynn
- Ellen Donovan
- Tracey Burke

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Judith Paget
- David Richards
- Peter Kennedy
- Gawain Evans
- Helen Lentle
- Piers Bisson
- Liz Lalley
- Claire Bennett
- Bekah Cioffi (Shadow Board)
- Zakhyia Begum (Shadow Board)

Hefyd yn bresennol

- Aled Edwards
- Catrin Sully
- Jo Glenn
- Sharon Cross

Ysgrifenyddiaeth

- Alison Rees

Ymddiheuriadau

- Andrew Slade
- Reg Kilpatrick
- Jo-Anne Daniels
- Glyn Jones
- Andrew Jeffreys
- Des Clifford

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i gyfarfod y Bwrdd. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Aled Edwards wedi'i wahodd i ymuno â'r cyfarfod cyn iddo ymgymryd â'i rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

1.2 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 17 Mehefin.

1.3 Estynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol wahoddiad i Claire Bennet roi diweddariad ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin. Ar adeg y cyfarfod, mae mwy na 4,000 o ffoaduriaid o Wcráin wedi cyrraedd Cymru. Ar hyn o bryd, mae nifer o ganolfannau croeso ar gael at ddefnydd neilltuedig Llywodraeth Cymru, lle y gall gynnig pecyn cofleidiol helaeth i ffoaduriaid. Mae nifer o ganolfannau eraill ar gael iddi ei defnyddio hefyd, sy'n cynnig pecyn cymorth llai cynhwysfawr.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ystyried amrywiaeth eang o lety hirdymor amgen i ffoaduriaid o Wcráin, yn ogystal â ffoaduriaid eraill a'r rhai sy'n ddigartref. Ychwanegodd Claire fod heriau dod o hyd i lety rhent preifat addas i ffoaduriaid o Wcráin yn bodoli mewn rhannau eraill o'r DU hefyd. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn gwario £100,000 miliwn ar yr ymateb i'r rhyfel yn Wcráin.

1.5 Cydnabu Aled Edwards y pwysau enfawr sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r argyfwng dyngarol ac estynnodd longyfarchiadau i Lywodraeth Cymru ar ei hymateb o'r radd flaenaf. Ychwanegodd Aled y gall fod cryn amser cyn y gall ffoaduriaid sy'n cyrraedd Cymru ddychwelyd i'w cartrefi yn Wcráin.

1.6 Estynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol wahoddiad i Judith Paget roi diweddariad ar sefyllfa ddiweddaraf y GIG mewn perthynas â COVID-19. Ar adeg y cyfarfod, roedd ychydig dros 800 o gleifion COVID-19 mewn ysbytai, gyda 20 mewn Unedau Gofal Dwys. Mae tua 1,000 o gleifion sy'n ffit yn feddygol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yn aros i gel eu rhyddhau i'r gymuned.

1.7 Mae potensial ar gyfer ton arall o COVID-19 ym mis Hydref/Tachwedd, ac mae swyddogion iechyd wrthi'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried a fydd angen cyflwyno mesurau rhagofalus er mwyn rheoli'r sefyllfa.

1.8 Mae COVID-19 yn parhau i effeithio ar lefelau salwch staff yn y GIG, gyda'r lefelau hynny tua 1.5% yn uwch na'r hyn y gellid disgwyl ei weld ar yr adeg hon o'r flwyddyn fel arfer.

1.9 Nododd Judith fod gan GIG Cymru hefyd rôl i ddiwallu anghenion gofal iechyd y rhai sy'n cyrraedd o Wcráin.

2. Y Rhaglen Lywodraethu – diweddariad ar gynnydd

2.1 Rhoddodd Catrin Sully ddiweddariad ar y Rhaglen Lywodraethu. Ymddengys fod statws Coch, Melyn, Gwyrdd yr ymrwymadau yn sefydlog, gyda mân leihad yn nifer y rhai â statws Coch. Mae Prif Weinidog Cymru wedi nodi, lle bo ymrwymadau wedi'u pennu'n rhai â statws Coch, ei fod yn disgwyl y caiff swyddogion arweiniol eu nodi er mwyn rhoi camau gweithredu ar waith.

2.2 Nododd Catrin rai pryderon ynghylch y 169 o ymrwymadau nad ydynt yn cael eu rheoli'n ganolog ar hyn o bryd. Mae'r rhain wedi'u coladu a byddant yn cael eu rhannu â'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol i'w hystyried.

2.3 Rhoddodd Catrin drosolwg o'r meini prawf a ddefnyddir i nodi pynciau ar gyfer sesiynau sicrwydd cyflymder yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r adborth gan swyddogion a fu'n rhan o'r cylch cyntaf wedi bod yn gadarnhaol.

2.4 Dywedodd Gareth Lynn fod system yr Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yn adnodd gweithredol gwych a thynnodd sylw at bwysigrwydd cynnal eglurder ynghylch y dull o bennu statws coch i ymrwymïadau.

2.5 Diolchodd Ellen Donovan i Catrin a'i thîm am eu gwaith caled diflino i fonitro cynnydd ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu a nododd ansawdd yr wybodaeth a gesglir ar system yr Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes. Holodd Ellen ynglŷn â'r broses ar gyfer craffu ar y 169 o ymrwymïadau a arweinir gan Weinidogion, yn enwedig y rheini lle mae'r pethau i'w cyflawni yn newid.

2.6 Diolchodd Piers Bisson i Catrin a'i thîm am eu cymorth wrth helpu timau i fanteisio i'r eithaf ar system yr Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes, a nododd fod angen ystyried effaith ffactorau allanol, gan gynnwys newidiadau mewn arweinyddiaeth ar lefel Llywodraeth y DU, ar y gallu i gyflawni ymrwymïadau Llywodraeth Cymru.

2.7 Rhoddodd Judith drosolwg byr o ddull y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o fonitro ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu ac ymrwymïadau eraill.

2.8 Nododd y Bwrdd Cysgodol ei bod yn galonogol cael diweddariad ar y sesiynau sicrwydd cyflymder ac arweiniad Prif Weinidog Cymru.

2.9 Estynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol wahoddiad i Catrin ymateb i'r sylwadau. Nododd Catrin fod systemau monitro yn datblygu dros amser a thynnodd sylw at her defnyddio system reoli at sawl diben. Ychwanegodd Catrin fod Prif Weinidog Cymru wedi cydnabod y fantais y mae system yr Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes yn ei chynnig drwy ddarparu un set o wybodaeth am gynnydd. Nododd Catrin y gwaith a wnaed gan Des Clifford yn ddiweddar i egluro'r diffiniadau o statws Coch, Melyn a Gwyrdd.

2.10 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i bawb am eu sylwadau a gofynnodd i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ystyried y meysydd hynny yr hoffent iddynt gael eu harchwilio'n fanylach yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cam gweithredu: Y Cyfarwyddwyr Anweithredol i ystyried y meysydd hynny yr hoffent iddynt gael eu harchwilio'n fanylach ar agendâu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

3. Diweddariad ar Llywodraeth Cymru 2025 – Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau

3.1 Rhoddodd Natalie Pearson ddiweddariad ar y broses o ddatblygu'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau, gan dynnu sylw at y dull a ddefnyddir i ymgysylltu â staff a chydgynhyrchu'r fframwaith drwy'r digwyddiadau Dewch i Drafod yn Fyw a chyfarfodydd eraill.

3.2 Roedd Meena Upadhyaya yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r fframwaith a gofynnodd sut y bydd y sefydliad yn adlewyrchu'r modd y caiff y gwerthoedd eu rhoi ar waith yn ystod y diwrnod gwaith a pha mor aml y mae'r sefydliad yn cynnig y dylid adolygu'r gwerthoedd.

3.3 Roedd Gareth yn cefnogi'r dull a ddefnyddir ond cwestiynodd y diffyg ffocws ar gyflawni yn y cyflwyniad. Ychwanegodd Gareth nad yw'r gwerthoedd yn allbwn ynddynt eu hunain, ond yn hytrach, eu bod yn dylanwadu ar y ffordd y caiff allbynnau eu cyflawni.

3.4 Nododd Aled y rôl bwysig y mae gwerthoedd Llywodraeth Cymru wedi ei chwarae wrth lywio'r ymateb i'r pandemig.

3.5 Croesawodd Ellen y dull cydgynhyrchu ac awgrymodd y dylid esbonio sut mae'r gwerthoedd yn cyd-fynd ag egwyddorion Nolan, a thynnodd Piers sylw at bwysigrwydd cysylltu'n ôl â Chod y Gwasanaeth Sifil.

3.6 Tynnodd y Bwrdd Cysgodol sylw at bwysigrwydd dangos sut mae gwersi a ddysgwyd o iteriadau blaenorol o werthoedd y sefydliad yn dylanwadu ar yr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymarfer presennol.

Penderfyniad

Roedd y Bwrdd yn cefnogi cyfeiriad y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau.

4. Amrywiaeth a chynhwysiant

4.1 Estynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol wahoddiad i Jo Glenn a Natalie Pearson roi diweddariad ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn Llywodraeth Cymru.

4.2 Nododd Peter Kennedy bryderon ynghylch y canlyniadau i ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn y pyrth dyrchafu diweddar; mae swyddogion Adnoddau Dynol yn ymchwilio i hyn.

4.3 Roedd Meena yn croesawu'r gwaith ymgysylltu â rhaglen Arweinyddiaeth Cymrodoriaeth a gofynnodd a yw ffoaduriaid yn gymwys i wneud cais am le ar raglen prentisiaethau Llywodraeth Cymru. Roedd Gareth yn croesawu'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo a gofynnodd a oedd data ymgeiswyr yn peri unrhyw bryderon. O ran cyrraedd targedau recriwtio Llywodraeth Cymru awgrymodd Ellen y gallai datblygu map proses o'r dechrau i'r diwedd a nodi cerrig milltir fod yn fuddiol.

4.4 Roedd Bekah, ar ran y Bwrdd Cysgodol, yn croesawu cwmpas eang yr adroddiad a thynnodd sylw at feysydd y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt; yn benodol gwella cynrychiolaeth ar draws y sefydliad a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni Cynllun Cymru Wrth-hiliol. O ran cynyddu cynrychiolaeth o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yng ngweithlu Llywodraeth Cymru, awgrymodd y Bwrdd Cysgodol y dylai ymgyrchoedd recriwtio bwysleisio nad yw

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

byw yng Nghymru yn un o'r rhagofynion ar gyfer ymuno â'r sefydliad.

4.5 Diolchodd Piers i'r grŵp am ei sylwadau. Mae ymarfer mapio prosesau ar gyfer y broses recriwtio yn mynd rhagddo, a fydd yn edrych yn benodol ar recriwtio ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol

4.6 Daeth yr Ysgrifennydd Parhaol â'r drafodaeth ar yr eitem i ben, gan nodi'r angen i gynnal cynnydd mewn perthynas â'r materion hynod bwysig hyn.

5. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

5.1 Estynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol wahoddiad i Sharon Cross roi trosolwg o'r adroddiad diweddaraf ar berfformiad Llywodraeth Cymru. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Pwyllgor Gweithredol wedi cael cyflwyniad yn ddiweddar ar feithrin galluogrwydd polisi yn Llywodraeth Cymru. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â rheoli prosiectau a rhaglenni yn yr adroddiad ar berfformiad.

5.2 Croesawodd Ellen y diweddariad ond gofynnodd a yw'n adlewyrchu'r sefyllfa o ran deddfwriaeth. O ran rheoli rhaglenni a phrosiectau, ar ôl arsylwi ar gwrs hyfforddi, awgrymodd Ellen fod mwy o ffocws ar sgiliau arwain nag ar fanylion rheoli rhaglenni a phrosiectau.

5.3 Rhybuddiodd Gareth na ddylid dod i gasgliadau ar sail data a gasglwyd dros gyfnod byr o amser, yn enwedig o ystyried effaith y pandemig dros y ddwy flynedd diwethaf. Nododd Gareth y sylwadau ar reoli rhaglenni a phrosiectau.

5.4 Gofynnodd Meena a yw'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cyd-fynd â'r disgwyliadau ar gyfer perfformiad sefydliadol hirdymor.

5.5 Nododd Gawain Evans ffocws parhaus yr Adran Gyllid ar wella ei pherfformiad.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

5.6 Tynnodd y Bwrdd Cysgodol sylw at y diffyg gwybodaeth am foddhad staff o fewn y thema Adnoddau Dynol a Rheoli'r Gweithlu. Nododd y Bwrdd Cysgodol ddiffyg cynnydd mewn perthynas â rheoli prosiectau a rhaglenni.

6. COVID-19 – diwedd y cyfnod pontio

6.1 Rhoddodd Liz Lalley ddiweddariad ar y sefyllfa ar ôl diwedd y cyfnod pontio ffurfiol a chasgliad y Bwrdd Pontio a sefydlwyd i oruchwylio'r broses hon.

6.2 Nododd Liz fod dull sefydliadol y cytunwyd arno o ymdrin â gwaith parhaus i ymateb i COVID-19, a bod cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith os bydd sefyllfa frys yn ymwneud â COVID-19 yn codi. Fel rhan o'r broses bontio, mae pob risg weddilliol wedi'i throsglwyddo i'r adrannau perthnasol; y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf.

6.3 Nododd Ellen waith gwych y rhai sy'n gweithio ar yr ymateb i COVID-19 a thynnodd sylw at bwysigrwydd cynllunio parhad er mwyn paratoi ar gyfer tonau pellach o ystyried y ffaith y bydd cynifer o'r staff yn y timau gwreiddiol wedi symud ymlaen i rolau eraill.

6.4 Myfyriodd Meena ar yr amrywiadau rhwng polisïau COVID-19 pedair gwlad y DU a gofynnodd a oes cynlluniau ar waith ar gyfer dull cyffredin o reoli'r broses o bontio o bandemig i endemig.

6.5 Nododd Bekah y gall swyddogion Llywodraeth Cymru, yn rhinwedd eu swyddi fel gweision sifil, gael eu symud unrhyw bryd o dan eu contract i ymdrin â maes polisi, a thynnodd sylw ar yr angen i sicrhau bod cymorth priodol ar waith i gefnogi llesiant ac iechyd meddwl staff.

6.6 Diolchodd Liz i aelodau'r Bwrdd am eu sylwadau. Mae Prif Weinidog Cymru yn parhau i godi cwestiynau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chynllunio ar gyfer

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

tonau pellach o'r pandemig yn y dyfodol, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf sydd i ddod. Fel rhan o waith cynllunio tymor hwy, ystyrir hefyd sut i gyfnewid swyddogion a thimau i arwain meysydd gwaith am gyfnod penodol o amser.

6.7 O ran gwahaniaethau polisi rhwng pedair gwlad y DU, nododd Liz fod Llywodraeth Cymru bob amser wedi ffafrio dull gweithredu cyffredin ar gyfer y pedair gwlad, ac eithrio lle nad yw hynny wedi bod er budd pennaf Cymru. Lle bo polisiau wedi amrywio, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda thimau cyfathrebu'r llywodraethau eraill i esbonio'r gwahaniaethau yn y dull gweithredu.

6.8 Nododd David Richards fod yr ymchwiliad cyhoeddus i'r modd y cafodd y pandemig ei reoli wedi'i sefydlu a'i fod yn ystyried strwythur llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried parodrwydd ar gyfer y pandemig ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd drwy gydol yr ymchwiliad.

7. Unrhyw fater arall

7.1 Croesawodd Gareth y papur gwyntyllu a baratowyd gan David Richards yn trafod agweddau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwn o'r Bwrdd.

7.2 Gofynnodd Bekah a allai'r Bwrdd ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw yn un o'i gyfarfodydd yn y dyfodol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol drwy ddweud bod y rhain yn gwestiynau polisi i Weinidogion eu hystyried.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drlllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-llywodraeth-cymru-29-gorffennaf-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).